



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

Adroddiad ar weithgareddau 2019-20

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Intec
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FG

01248 371839

swyddfa@cyfieithwyr.cymru

www.cyfieithwyr.cymru



@cyfieithwyr

Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r corff cenedlaethol sy'n arwain, datblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol. Hi yw'r unig gymdeithas broffesiynol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg/Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun ynteu'n gyfieithwyr ar y pryd, a bu'n allweddol wrth greu cymuned o gyfieithwyr proffesiynol ledled Cymru.

Mae gan y Gymdeithas dair lefel o aelodaeth: Cyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun, ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd (CAP).

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg/Saesneg: mae aelodau'r Gymdeithas yn gweithio mewn swyddi yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn y sector preifat, ac ar eu liwt eu hunain.

Ers ei sefydlu yn 1976 mae'r Gymdeithas wedi:

- cynnal, datblygu a hyrwyddo'r safonau proffesiynol uchaf mewn cyfieithu Cymraeg/Saesneg trwy osod y safonau cyfieithu proffesiynol hynny, a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.
- sicrhau bod y proffesiwn/diwydiant cyfieithu yn datblygu'n effeithiol fel rhan o'r broses o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a'i fod yn gallu ymateb yn rhagweithiol i anghenion y Gymru ddwyieithog sydd ohoni.

Wrth fynd ati i gyflawni hyn, bwriad y Gymdeithas yw cynrychioli'r rhan fwyaf o gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg/Saesneg, lleihau'r achosion lle gall unrhyw un ei (g)alw ei hun yn gyfieithydd, a gwella dealltwriaeth a gwybodaeth y rhai sy'n gyfrifol am gaffael gwasanaethau cyfieithu a rhoi'r sicrwydd iddynt y gallant ddisgwyl gwaith o safon.

Trwy roi grant blynyddol i'r Gymdeithas ers 1997 – yn uniongyrchol ers 2016 a thrwy law Comisiynydd y Gymraeg (2012-16) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn hynny – mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi dros £1.7 miliwn yng ngwaith y Gymdeithas i ddatblygu, hyrwyddo a chryfhau'r diwydiant/proffesiwn cyfieithu Cymraeg/Saesneg: 'cefnogaeth barhaus', fel y nodir yn strategaeth *Cymraeg 2050*, sy'n allweddol wrth iddi gyflawni ei swyddogaeth a'i chenhadaeth.

Swyddfa newydd

Gorfodwyd y Gymdeithas i ddod o hyd i swyddfa newydd yn ysod haf 2019. Ers 17 Medi 2019 mae swyddfa'r Gymdeithas yn Intec, Parc Menai, ar gyrion Bangor.



Cynnwys

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru	1
Cynnwys yr adroddiad	2
Rhagair gan y Cadeirydd	3
Effaith Covid-19 ar waith y Gymdeithas	4
Diolchiadau	4
1. Cyflwyniad i'r adroddiad	5
2. Amcan strategol 1: Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: Aelodaeth y Gymdeithas	6
3. Amcan strategol 1: Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: y drefn arholi	9
4. Amcan strategol 2: Hybu datblygu proffesiynol	13
5. Amcan strategol 3: Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol	15
6. Amcan strategol 4: Codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol	18
7. Llywodraethiant a rheolaeth	19



Rhagair

Braint unwaith eto eleni yw cael ysgrifennu pwt o ragair i'r adroddiad ar weithgareddau 2019-20 y Gymdeithas, wrth i ni edrych yn ôl ar ddeuddeg mis sy'n edrych ac yn teimlo fel byd hollol wahanol i'r un rydyn ni'n byw ynddo ar hyn o bryd. Rydyn ni i gyd dal i geisio addasu - ac ail-addasu wedyn - i'r byd newydd hwn, a'r heriau a ddaw i ganlyn yr angen i gadw pellter cymdeithasol, hunanynysu a gweithio gartref gymaint ag y gallwn ni.

Roedd rhai eisoes yn arloesi gyda dulliau gweithio newydd wrth i gyfnod yr adroddiad blynyddol hwn ddod i ben, ac rydyn ni'n ddiolchgar i'r aelodau hynny sydd wedi bod yn barod i rannu o'u profiadau wrth i'r diwydiant cyfieithu wynebu pob math o heriau. Gan fod geiriau a chyfathrebu yn rhan mor allweddol o'n gwaith ni, bu'n galonddid clywed am nifer a fu'n cadw mewn cysylltiad ac a fu o gymorth i'w cyd-gyfieithwyr ddiwedd Mawrth ac ar hyd y misoedd yn dilyn hynny. Gall byd y cyfieithydd, yn enwedig y cyfieithydd hunangyflogedig, fod yn unig iawn, ac er bod nifer ohonom wedi gallu ymdopi â hunanynysu heb weld llawer o wahaniaeth yn ein ffordd o weithio, diolch i'r aelodau hynny a fu'n ystyriol o anghenion rhai a welodd y cyfnod hwn o newid mawr fel cyfnod anodd.

Fel Cymdeithas, buom yn ffodus unwaith eto eleni bod Geraint a Nia wedi bod mor barod i ymateb i'r amgylchiadau, a gweithio'n ddiflino er ein budd ni fel aelodau. Hon oedd y flwyddyn pan ddaeth cyfle i symud i gartref newydd ar ôl bron i ddau ddegawd ym Mryn Menai, ac mae'n dda gallu adrodd bod y swyddfa newydd yn Intec wedi bod yn lleoliad hwylus i'r ddau tan y bu'n rhaid iddyn nhw gadw at yr arweiniad cenedlaethol i weithio gartref.

Gyda blwyddyn ariannol 2020-21 eisoes yn mynd rhagddi, a'r cyfyngiadau yn golygu na fu modd cynnal rowndiau arholiadau arferol Ebrill a Hydref, edrychwn ymlaen yn obeithiol at gyfnod pan fydd modd i ni groesawu aelodau newydd i'n plith. Yn y cyfamser, anogaf yr holl aelodau cyfredol a'r rhai sydd â diddordeb mewn gweithio yn y maes i fanteisio ar y ddarpariaeth y gall y Gymdeithas ei chynnig er gwaetha'r cyfyngiadau symud, gan loywi ein sgiliau a chyfoethogi ein gwybodaeth am y maes yn barod i wynebu'r "normal newydd" y sonnir amdano mor aml erbyn hyn.

Beth bynnag a ddaw, gobeithio y byddwn ni i gyd yn cael ein calonogi ein bod ni'n rhan o Gymdeithas o dros bedwar cant o aelodau, pob un â'i ran yn y gwaith o sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i ffynnu fel rhan annatod o fywyd cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a hamdden ein cenedl. Diolch i bob un ohonoch am eich cyfraniad at y gwaith hollbwysig o sicrhau bod modd i ddinasyddion Cymru'r cyfnod Covid barhau i fyw a gweithio drwy'r Gymraeg.

Huw Tegid Roberts
Cadeirydd



Effaith Covid-19 ar waith y Gymdeithas

Wrth i'r flwyddyn dan sylw dynnu at ei therfyn, bu'n rhaid i'r Gymdeithas addasu ei threfniadau gwaith oherwydd y pandemig a gorfodwyd y staff i weithio gartref. Llwyddwyd i gyflawni'r gwaith beunyddiol o weinyddu, trefnu a rheoli'r Gymdeithas heb lawer o anhawster.

Gan i ni benderfynu y byddai gwaith y Gymdeithas yn parhau, ni wnaed cais am unrhyw gymorth ariannol a oedd ar gael. Nid yw'r Gymdeithas yn talu trethi annomestig, felly, nid oeddem yn gymwys am grant trethi busnes Cyngor Gwynedd.

Anfonwyd Bwletin Newyddion at yr aelodau'n rheolaidd. Roedd hyn yn ffordd bwysig o gadw mewn cysylltiad â'r aelodau, yn ogystal â rhannu gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol iddynt.

Gair o ddiolch gan y Prif Weithredwr, Geraint Wyn Parry

Unwaith eto, hoffwn ddatgan fy niolch a'm gwerthfawrogiad i Nia Wyn Jones am ei gwaith caled a'i hymroddiad i'r Gymdeithas, a hynny ers ugain mlynedd erbyn hyn. Hi sy'n gyfrifol am waith creiddiol a phwysicaf y Gymdeithas, sef trefnu a gweinyddu'r Arholiadau Aelodaeth Testun a'r Prawf Cyfieithu ar y Pryd, yn ogystal â chadw golwg ar y materion ariannol o ddydd-i-ddydd.

Hoffwn ddiolch o galon i Huw Tegid Roberts, ein Cadeirydd ers dechrau 2019, am ei gefnogaeth barhaus, ei gyngor doeth a'i arweiniad effeithiol. Bu'r cydweithio rhyngom yn rhwydd a didrfferth.

Gaf fi hefyd ddiolch i holl aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr am eu doethineb wrth gyflawni eu gwaith, ac am eu ffyddlondeb i gyfarfodydd y Bwrdd.

Mae Fiona Gannon, ein Prif Arholwr, yn un sy'n chwarae rhan allweddol yng ngwaith y Gymdeithas. Hoffwn ddiolch iddi hithau am ei harweiniad cadarn wrth lywio gweithgarwch pwysica'r Gymdeithas.

Mae nifer o aelodau, ac eraill, yn gwasanaethu'r Gymdeithas mewn ffyrdd eraill. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r rhai sy'n cyfrannu at waith y Gymdeithas fel arholwyr a marcwyr y drefn arholi, fel tiwtoriaid gweithdai, fel goruchwylwyr yr arholiadau, a'r rhai sydd mor barod i gynorthwyo pan af ar eu galw ynghylch rhyw dasg neu'i gilydd. Mae'r cydweithio braf rhwng y staff a'r aelodau trwy'r ymwneud hwn yn un o gryfderau mawr y Gymdeithas, a hir y parhaed hynny.

Caiff y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Hoffwn ddiolch am y grant hwn sydd wedi dod ag elfen gref o sefydlogrwydd i'r Gymdeithas, yn ogystal â chaniatáu i ni barhau â chenhadaeth bwysig y Gymdeithas wrth iddi gynnal safonau cyfieithu proffesiynol.



1. Cyflwyniad i'r Adroddiad

Mae'r Adroddiad ar weithgareddau 2019-20 Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru wedi ei baratoi i adlewyrchu amcanion strategol y Cynllun Strategol. Bydd y penodau sy'n dilyn yn adrodd ar gyflawni pedwar amcan strategol y Gymdeithas: cynnal a chynyddu'r aelodaeth, hybu datblygu proffesiynol, cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol, a chodi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol; yn ogystal â threfniadau llywodraethiant a rheoli'r Gymdeithas.

Mae'r Cynllun Strategol yn hyrwyddo nod ac amcanion y Gymdeithas trwy adeiladu ar seiliau cadarn y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n caniatáu i'r Gymdeithas barhau ei chenhadaeth o ddatblygu'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg ymhellach, ynghyd â'i swyddogaeth bwysig fel lladmerydd yn eiriol ar ran buddiannau ei haelodau.

Roedd yr egwyddor graidd hon wrth wraidd yr hyn a gyflawnodd y Gymdeithas yn ystod 2019-20 wrth iddi barhau i gynrychioli diddordebau ei haelodau, cynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Gwnaed hyn mewn sawl dull a modd, gan gynnwys:

- cynyddu nifer y cyfieithwyr y mae'n eu cynrychioli;
- cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;
- hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr trwy drefnu rhaglen amrywiol o weithdai, ac annog a hyrwyddo datblygu proffesiynol parhaus;
- cynnal perthynas â sefydliadau Addysg Uwch, yn enwedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r cyrsiau academiaidd yn y maes;
- cynnal a meithrin ei chysylltiadau â chyrrff a sefydliadau eraill y tu mewn a'r tu allan i'r byd cyfieithu;
- hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol y Gymdeithas, codi proffil cyfieithu proffesiynol a marchnata'i haelodau.

Rhydd yr adroddiad hwn drosolwg o weithgareddau 2019-20 a gwybodaeth am drefniadau llywodraethu ac ariannu'r Gymdeithas.

Wrth ddarllen yr adroddiad hwn fe'ch cynghorir yn gryf i ymweld â gwefan y Gymdeithas - <https://www.cyfieithwyr.cymru/cy> - lle cewch wybod rhagor am y Gymdeithas a'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Cafodd y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru yn 2019-20.



2. Amcan strategol 1:

Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: aelodaeth y Gymdeithas

Nod yr amcan strategol hwn yw sicrhau y bydd y Gymdeithas yn cynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr, ac yn ymestyn ei dylanwad a'i heffaith trwy gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol.

Sylwer, mae'r amcan strategol hwn yn ymwneud ag aelodaeth y Gymdeithas a'i threfn arholi. Rhennir y rhain yn ddwy adran: mae'r adran hon yn ymdrin â materion yn ymwneud â rheoli a gweinyddu'r aelodaeth, a bydd yr un nesaf yn ymdrin â'r drefn arholi.

Dim ond drwy lwyddo yn Arholiadau Aelodaeth Testun neu ym Mhrawf CAP y Gymdeithas y gellir dod yn aelod. Mae dwy lefel aelodaeth i gyfieithwyr testun, Cyflawn a Sylfaenol. Un lefel aelodaeth sydd i gyfieithwyr ar y pryd, a honno naill ai i'r Saesneg neu i'r Gymraeg. Dim ond unigolion all fod yn aelodau o'r Gymdeithas.

2.1 Aelodaeth y Gymdeithas

Ar 31 Mawrth 2020 roedd gan y Gymdeithas 411 o aelodau, fel a ganlyn:

Aelodau Cyflawn: 210

Aelodau Sylfaenol: 180

Aelodau Cyfieithu ar y Pryd: 79*

* O'r 79 Aelod CAP, roedd 21 yn Aelodau CAP yn unig. Mae'r lleill naill ai'n Aelodau Cyflawn (46) ynteu'n Aelodau Sylfaenol (12) hefyd.

Mae pob un yn Aelod CAP i'r Saesneg, a 18 yn Aelodau CAP i'r Gymraeg.

Dyma'r nifer uchaf erioed yn hanes y Gymdeithas, sydd 34 yn fwy nag ar 31 Mawrth 2019, sef y cynnydd mwyaf mewn blwyddyn.

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg/Saesneg. Roedd 39% o'r aelodau hyn yn gweithio yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. O'r aelodau sy'n gweithio yn y sector preifat, roedd 42% ar eu liwt eu hunain a 19% yn gweithio i gwmnïau cyfieithu.

Mae blwyddyn aelodaeth y Gymdeithas yn dechrau ar 1 Ebrill. Gweithredir trefn gadarn a theg yn ystod Ebrill a Mai bob blwyddyn i atgoffa ac ail-atgoffa aelodau i dalu'u tâl aelodaeth. O ganlyniad, dim ond enwau aelodau sydd wedi talu'u tâl aelodaeth am y flwyddyn sydd ar wefan y Gymdeithas.

Cynigir nifer o fuddion a gwasanaethau i'r aelodau, gan gynnwys Bwletin Newyddion rheolaidd, gwybodaeth berthnasol a defnyddiol, gostyngiadau ar gyfer gweithdai a digwyddiadau'r Gymdeithas, a Diwrnod i'r Aelodau bob blwyddyn fel arfer. Mae gan bob aelod ei Gofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas, sy'n cynnwys Proffil.

Caiff pob aelod Dystysgrif Aelodaeth pan fydd wedi talu ei dâl aelodaeth.



Caiff pob aelod gopi o'r Llawlyfr Aelodaeth. Y bwriad yw y bydd yn ateb y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r cwestiynau a allai godi ynghylch aelodaeth o'r Gymdeithas.

Caiff Aelodau Cyflawn ac Aelodau CAP, yn ogystal â'r Cwmnïau Cydnabyddedig a'r Sefydliadau Cydnabyddedig, ddefnyddio'r logos arbennig a ddyluniwyd ar eu cyfer.

2.2 Ymddygiad proffesiynol

Wrth dalu eu tâl aelodaeth mae holl aelodau'r Gymdeithas yn gwybod bod disgwyl iddynt ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol. Ynghlwm wrth y Cod mae gan y Gymdeithas drefn gwyno. Braf dweud na chafwyd yr un gŵyn yn erbyn aelod o'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cynnig Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad, gwasanaeth y codir ffi amdano.

2.3 Cydnabod Meysydd Arbenigedd Proffesiynol

Trefn ar gyfer cydnabod Aelodau Cyflawn ac Aelodau CAP y Gymdeithas yn unig yw'r Maes Arbenigedd Proffesiynol. Mae gan y Gymdeithas dri Maes Arbenigedd Proffesiynol:

CAP yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd (a ddatblygwyd drwy ymgynghori â swyddogion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi). Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 24 Aelod CAP wedi cael y gymeradwyaeth hon. Mae disgwyl mai dim ond yr aelodau CAP hyn fydd yn cael eu galw i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn gwrandawiaid yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Cyfieithu Deddfwriaethol (a ddatblygwyd drwy ymgynghori â swyddogion Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru). Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 11 Aelod Cyflawn wedi cael y gymeradwyaeth hon. Mae cynlluniau ar y gweill i ddarparu cynllun hyfforddi er mwyn ychwanegu at y categori hwn.

Cyfieithu Cyfathrebu. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 17 Aelod Cyflawn wedi cael y gymeradwyaeth hon.

Arferid cydnabod yr aelodau hynny a lwyddodd ym Mhrawf CAP yr Undeb Ewropeaidd yn 2009 dan y drefn hon, ond gydag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd daeth y gydnabyddiaeth hon i ben.

2.4 Cydnabyddiaeth i eraill

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod cwmnïau cyfieithu trwy'r drefn **Cwmni Cydnabyddedig**. Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd y gydnabyddiaeth i Atebol. Roedd 9 cwmni'n cael eu cydnabod yn Gwmni Cydnabyddedig.

Cynigir **cydnabyddiaeth i sefydliadau cyhoeddus ac yn y trydydd sector** fel rhai Cydnabyddedig neu Gyswllt, yn amodol ar fodloni meini prawf. Roedd 11 sefydliad yn cael eu cydnabod yn Sefydliad Cydnabyddedig a 4 yn Sefydliad Cyswllt.

Mae cydnabyddiaeth yn **Fyfyriwr Cyswllt** ar gael i fyfyrwyr sydd â'u bryd ar yrfa fel cyfieithwyr, ac mae'n fodd o annog a chefnogi myfyrwyr yn yr uchelgais hon.



Cofrestrwyd 14 Myfyriwr Cyswllt newydd yn ystod y flwyddyn. Roedd cyfanswm o 26 Myfyriwr Cyswllt wedi'u cydnabod dan y categori hwn. Llwyddodd dau a oedd yn Fyfirwyr Cyswllt yn yr Arholiadau Aelodaeth Testun yn ystod y flwyddyn gan ddod yn Aelodau Sylfaenol.

Mae'r categori **Aelod sydd wedi ymddeol** ar gyfer cyn-aelodau sydd am gadw cysylltiad â'r Gymdeithas wedi i'w hymwneud ffurfiol â'r Gymdeithas fel aelodau ddod i ben yn dilyn eu hymddeoliad. Roedd 27 o gyn-aelodau am gadw cysylltiad â'r Gymdeithas fel hyn.

Nid yw'r un o'r categorïau hyn o gydnabyddiaeth yn golygu bod yn aelod o'r Gymdeithas.



3. Amcan strategol 1:

Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: y drefn arholi

Nod yr amcan strategol hwn yw sicrhau y bydd y Gymdeithas yn cynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr, ac yn ymestyn ei dylanwad a'i heffaith trwy gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol.

Mae'r adran hon yn ymdrin â materion yn ymwneud â'r Arholiadau Aelodaeth Testun a'r Prawf CAP.

3.1 Yr Arholiadau Aelodaeth Testun

Cynhaliwyd yr Arholiadau Aelodaeth Testun ar y lefelau Cyflawn a Sylfaenol ym mis Ebrill 2019 ac ym mis Hydref 2019.

Cyfanswm yr holl ymgeiswyr [1]	Ebrill 2019		Hydref 2019	
	Ymgeiswyr	Llwyddo [3]	Ymgeiswyr	Llwyddo [4]
	51 (47) [2]		49	
Cyflawn	13	1	11	4
Papur 1: i'r Gymraeg	12	1	9	3
Papur 2: i'r Saesneg	2	0	2	1
Sylfaenol	34	14	38	18
Papur 1: i'r Gymraeg	32	10	36	10
Papur 2: i'r Saesneg	12	6	16	9

Nodiadau

[1] Safodd rhai ymgeiswyr y ddau bapur.

[2] Er i 51 gofrestru ar gyfer arholiadau Ebrill 2019 dim ond 47 a'u safodd. Tynnodd dau o'r ymgeiswyr ar y lefel Sylfaenol yn ôl oherwydd salwch; ac ar y lefel Gyflawn bu i ddau ymgeisydd fethu neilltuo amser i wneud y darn 'gwaith cartref', felly, ni chawsant sefyll yr arholiad.

[3] Roedd 3 o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn arholiadau Ebrill 2019 eisoes yn aelodau. Cymeradwywyd aelodaeth i'r 12 ymgeisydd arall, ac ymaelododd pob un ohonynt â'r Gymdeithas.

[4] Roedd 4 o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn arholiadau Hydref 2019 eisoes yn aelodau. Cymeradwywyd aelodaeth i'r 18 ymgeisydd arall, ac ymaelododd pob un ohonynt, ac eithrio dau, â'r Gymdeithas cyn diwedd y flwyddyn. Ymaelododd un o'r rhain ar ddechrau 2020-21. Apeliodd 2 ymgeisydd ar y lefel Sylfaenol. Bu un ohonynt, nad oedd yn aelod o'r Gymdeithas, yn llwyddiannus. Cymeradwywyd aelodaeth i'r ymgeisydd ac mae wedi ymaelodi â'r Gymdeithas.

Cynhaliwyd yr arholiadau yng Ngholeg Ceredigion, Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd, a Choleg Meirion-Dwyfor, Glynllifon. Rydym yn ddiolchgar iawn i staff yn y sefydliadau hyn am eu



cydweithrediad a'u cymorth parod. Hoffem hefyd ddiolch i'r arholwyr, y marcwyr a'r goruchwylwyr.

Yr **arholiadau ar y lefel Gyflawn** ym mis Ebrill 2019 oedd yr ail rownd o arholiadau lle'r oedd gofyn bod yr holl ymgeiswyr Cyflawn yn cwblhau cyfanswm o dri darn o waith. Roedd y darn cyntaf yn 'waith cartref', ac yn gorfod cael ei gwblhau o fewn terfynau amser penodedig cyn dod i'r ganolfan arholi i gyfieithu dau ddarn o dan amodau arholiad. Diben y gwaith cartref, yn anad dim, yw rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu heb wynebu straen ystafell yr arholiad, a heb gael eu hamddifadu o'u ffynonellau arferol ar y we. Y disgwyl, felly, yn ddigon naturiol, yw bod y 'gwaith cartref' yn agos iawn at berffeithrwydd, ac mae'n gyfle pwysig i ymgeiswyr ddangos eu doniau. Yn anffodus, gwelwyd gormod o enghreifftiau lle nad oedd y darn 'gwaith cartref' yn rhagori ar yr hyn a gyflwynwyd yn yr arholiad.

Fel bob amser ar y lefel hon, roedd y darnau a ddewiswyd yn heriol, gan fod angen i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu i ymdopi â chyfieithiadau o wahanol fathau o ddarnau, a hynny gan gynnal y safon broffesiynol angenrheidiol.

Er mai nifer fechan o'r ymgeiswyr a lwyddodd yn yr arholiadau Cyflawn, roedd pob un ohonynt yn amlwg wedi deall y safon sy'n ddisgwyliedig, ac roedd sawl un o fewn trwch blewyn i lwyddo. Ond anghyson oedd y safon drwyddi draw, ac er bod sawl enghraifft o gyfieithu llwyddiannus ac effeithiol yng ngwaith ymgeiswyr, ochr yn ochr â hynny cafwyd gwallau na ddylent ddigwydd mewn gwaith o safon broffesiynol ar y lefel hon. Roedd gormod o wallau ystyr, yn ogystal â mân wallau esgeulus a ddigwyddodd oherwydd diffyg gwirio a golygu'r gwaith cyn ei gyflwyno.

Ar y lefel hon, mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod wedi cyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir. I wneud hyn rhaid mynd o dan groen y darn, fel petai, a gweld y tu hwnt i'r geiriau unigol, gan gyfleu neges a naws y gwreiddiol yn llwyddiannus yn yr iaith darged. Rhaid i'r gwaith ddarllen fel darn o Gymraeg neu Saesneg naturiol, ac mae hynny'n rhywbeth na ellir cyfaddawdu yn ei gylch ar y lefel Gyflawn.

Y brif anogaeth i ymgeiswyr, felly, yw eu bod, ar ôl gwirio eu bod wedi cyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir, yn darllen eu cyfieithiad fel petai'n ddarn cwbl annibynnol cyn ei gyflwyno. O wneud hynny, dylent ddod yn ymwybodol o'r manau lle mae arddull yr iaith wreiddiol yn rhy amlwg yn y cyfieithiad ac yn amharu arno. Pan fyddant wedi meistroli cyfleu ystyr y gwreiddiol mewn Cymraeg neu Saesneg naturiol, byddant wedi cyrraedd safon Aelodaeth Gyflawn.

Yn yr **arholiadau ar y lefel Sylfaenol**, er mai oddeutu 45% o'r ymgeiswyr ar gyfartaledd a fu'n llwyddiannus, gwelwyd tipyn o addewid. Roedd sawl un arall wedi llwyddo i gyrraedd y safon angenrheidiol mewn un darn, ond heb allu cynnal y safon honno ar hyd y papur arholiad. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn amlwg yn deall beth yw safon Aelodaeth Sylfaenol a sawl un yn agos iawn at gyrraedd y safon honno. Ond roedd ambell sgrïpt lle'r oedd yr ymgeiswyr yn amlwg wedi'u trechu gan ofynion y darnau a heb lwyddo mewn unrhyw un o'r pedair elfen sy'n sail i'r marcio.

Cafwyd gan yr ymgeiswyr gorau enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus, effeithiol a oedd yn cyfleu ystyr y gwreiddiol ac yn dangos gafael gadarn a graenus ar yr iaith darged.



Gwaetha'r modd, fodd bynnag, cafwyd hefyd nifer o gynigion lle'r oedd y gwaith a gyflwynwyd yn llawn gwallau a chamgymeriadau esgeulus megis camdreiglo a chamsillafu. Er bod modd maddau ambell lithriad bach o dan amodau arholiad, mae angen i gyfieithwyr feithrin y gallu i ddarllen eu gwaith yn fanwl ac yn ofalus â llygad craff, er mwyn osgoi cyflwyno cyfieithiad sy'n cynnwys gwallau esgeulus. Cofier bod gwirydd sillafu ar gael i bob ymgeisydd yn arholiadau'r Gymdeithas, ond nid ymddengys fod pob ymgeisydd yn manteisio ar y cymhorthion sydd ar gael.

Ymhlith y gwendidau eraill a welwyd roedd: methu cyfleu'r ystyr yn gywir; hepgor geiriau pwysig (brawddegau cyfan mewn rhai achosion); trafferth gyda'r ffurfiau berfol; tuedd i lynu'n rhy agos at batrwn yr iaith wreiddiol (yn enwedig wrth gyfieithu i'r Saesneg); a chamgyfieithu.

Unwaith eto, fel yn y gorffennol, teimlid nad oedd ymgeiswyr wedi darllen eu gwaith yn drylwyr cyn ei gyflwyno. Wrth gyfieithu, rhaid cyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir, wrth gwrs, ond mae'n rhaid gwneud hynny mewn modd sy'n naturiol i'r iaith darged, ac mae hynny'n aml yn golygu bod rhaid 'dadbacio' rhywfaint ar yr ystyr, yn hytrach na chyfieithu'n slafaid.

Y neges i'r holl ymgeiswyr ar y ddwy lefel, yn rhai llwyddiannus ac aflwyddiannus, p'un ai i'r Gymraeg neu i'r Saesneg, fyddai y dylent fynd ati o ddifri i ddadansoddi eu gwaith cyfieithu a threiddio o dan yr wyneb i gael hyd i'r ystyr a'r neges waelodol. Dylai pawb ohonynt hefyd fanteisio ar bob cyfle i gryfhau eu sgiliau ymhellach, a manteisio ar bob cyfle i ddarllen Cymraeg a Saesneg graenus er mwyn ymglyfarwyddo ymhellach â phatrymau'r ddwy iaith.

Ar derfyn pob rownd o arholiadau cyhoeddir Adroddiad y Prif Arholwr ar wefan y Gymdeithas. Mae'r adroddiadau hyn yn amlygu'r cyfieithu llwyddiannus ac aflwyddiannus a welwyd yn y sgriptiau arholiad, ac yn cynnig sylwadau adeiladol, cynghorion buddiol ac anogaeth i ymgeiswyr ac eraill ynghylch sut y gallant wella'u cyfieithu. Hefyd, gall unrhyw ymgeisydd, p'un a yw wedi llwyddo neu fethu, ofyn am adroddiad unigol ar ei bapur arholiad. Ystyriwn fod gwerth mawr i'r adroddiadau hyn fel rhan o ddatblygiad proffesiynol cyfieithwyr, yn ogystal â chynnig trosolwg o'r gwendidau cyffredin a welir wrth gyfieithu.

Mae'r Gymdeithas yn cynnig dwy wobr yn flynyddol i'r ymgeiswyr mwyaf addawol am Aelodaeth Sylfaenol os bernir bod teilyngdod: **Gwobr Goffa Wil Petherbridge** (cyfieithu i'r Gymraeg) a roddir er cof am gyn-Ysgrifennydd y Gymdeithas ac arloeswr ym myd cyfieithu yng Nghymru, a **Gwobr Berwyn** (cyfieithu i'r Saesneg) er anrhydedd i Berwyn Prys Jones a fu'n Gadeirydd y Gymdeithas am y rhan helaethaf o'i bodolaeth. Nerys Owen o gwmni Atebol oedd enillydd Gwobr Goffa Wil Petherbridge a dyfarnwyd Gwobr Berwyn i Bethan Thomas, cyfieithydd ar ei liwt ei hun.

Mae dwy brif wobr flynyddol y Gymdeithas ymhlith y gweithgareddau a gaiff eu hariannu gan y **Gronfa Sbarduno**. Sefydlwyd y Gronfa hon yn 2017 a daw ei chyllid o'r arian wrth gefn a rhoddion.

Cynhaliwyd y diwrnod blynyddol o **hyfforddiant i aelodau'r Gofrestr Marcwyr**. Ymhlith y materion a drafodwyd roedd trefniadau'r cyfnod marcio a strwythur y Bwrdd Arholi Testunau a'r llawlyfr newydd i ymgeiswyr yr arholiadau y bwriadwyd ei gyhoeddi yn 2020. Mae'r llawlyfryn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol ar bob agwedd ar y drefn arholi. Treuliwyd amser hefyd yn dadansoddi cyfieithiadau.



3.2 Y Prawf CAP

Trefnwyd Prawf CAP i'r Saesneg a Phrawf CAP i'r Gymraeg ym mis Chwefror 2020 yn Stiwdio Aran, y Groeslon, a CTV Sound Studios, Caerdydd, ill dau yn stiwdios sain proffesiynol.

Cafwyd 4 ymgeisydd ar gyfer y Prawf CAP i'r Saesneg, dau ym mhob stiwdio, ond ni fu dim diddordeb yn y Prawf CAP i'r Gymraeg.

Dyfarwyd bod 2 ymgeisydd wedi llwyddo yn y **Prawf CAP i'r Saesneg**. Nid oeddynt yn aelodau o'r Gymdeithas, ac yn dilyn cymeradwyo aelodaeth iddynt mae'r ddau bellach yn Aelodau CAP.

Cafwyd nifer o enghreifftiau da o gyfieithu llyfn, idiomatig, naturiol a chywir, ond hefyd nodwyd rhai pethau a faglod fwy nag un ymgeisydd. Y cyngor, felly, i bob ymgeisydd, ni waeth beth oedd canlyniad terfynol y Prawf CAP, yw y byddai parhau i ymarfer a gwrandao ar ei lais a'i gywirdeb ef neu hi ei hun wrth gyfieithu ar y pryd o gymorth mawr wrth fagu profiad pellach.

Roedd yn gwbl amlwg fod pob un o'r ymgeiswyr wedi deall ystyr y darnau, ond amrywiol oedd eu gallu i gyfleu'n glir ac yn ramadegol gywir yn union beth oedd dan sylw. Rhwystredigaeth wrth asesu oedd gwybod bod y ddealltwriaeth yn gadarn, ond bod gwendid wrth gyfathrebu hynny'n ddigon graenus yn y Saesneg. Yn sgil rhai o'r llithriadau, cafwyd trosiadau anniben a thrwsgl a bylchau anffodus. Sicrhau bod y cyfieithiad yn swnio fel cyflwyniad naturiol a gwreiddiol yw'r nod, lle mae cystrawennu'n raenus yn coroni ymgais gadarn.

Amrywiol oedd yr ymgais i wahaniaethu rhwng siaradwyr, ac er y gwelwyd pwyslais a newid goslef ar ran y cyfieithydd i gyd-fynd â'r siaradwr gan y goreuon, yn y gwannaf collwyd y cyfle i efelychu gwir naws a theimladau'r gwreiddiol. Mae cymryd saib am eiliad yn hollbwysig, er mwyn bod yn glir. Roedd y cynigion lle addaswyd tŷn y llais yn gwneud y profiad gwrandao yn fwy pluserus o lawer.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r staff yn y ddwy stiwdio am eu cydweithrediad a'u cymorth parod. Hoffem hefyd ddiolch i'r arholwyr a'r aseswyr.

Fel yn achos yr arholiadau, ar derfyn pob Prawf CAP cyhoeddir adroddiad cyffredinol ar wefan y Gymdeithas. Gall unrhyw ymgeisydd, p'un a yw wedi llwyddo neu fethu, hefyd ofyn am adroddiad unigol ar ei ymgais yn y Prawf CAP.

Bu'n rhaid canslo'r **Diwrnod i'r Aseswyr CAP** y bwriadwyd ei gynnal ddiwedd mis Mawrth 2020 oherwydd y pandemig.



4. Amcan strategol 2: Hybu datblygu proffesiynol

Nod yr amcan strategol hwn yw sicrhau cyfleoedd i gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd a fydd yn eu helpu i wella, cynyddu a datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Bydd hyn yn fodd o hyrwyddo sgiliau proffesiynol a chyflogadwyedd yr aelodau.

Er bod llai o weithgareddau i hybu datblygu proffesiynol yn ystod y flwyddyn dan sylw, mae'r Gymdeithas yn benderfynol o gynnal gweithgareddau o'r fath ac yn cydnabod eu pwysigrwydd.

Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r agwedd hon ar waith y Gymdeithas, arwydd sicr fod galw am hyfforddiant a bod angen rhagor o weithgareddau datblygu proffesiynol. Mae darpariaeth y Gymdeithas yn y maes hwn yn llenwi bwlch pwysig (serch nad yw'r ddarpariaeth hon mor helaeth ag yr arferai fod). Roedd y rhai a fanteisiodd ar y cyfleoedd hyn yn gweithio yn y sector cyhoeddus, mewn cwmnïau cyfieithu preifat neu ar eu liwt eu hunain. Mae hyn yn arwydd clir fod cyfieithwyr ar draws y proffesiwn/diwydiant yn ei gyfanrwydd yn gweld gwerth mewn buddsoddi yn eu datblygiad proffesiynol. Roedd sawl un a oedd yn ystyried gyrfa fel cyfieithydd hefyd ymhlith y rhai a gymerodd ran yn yr hyfforddiant.

4.1 Gweithgareddau hyfforddi

Unwaith eto bu'r **e-weithdy cyfieithu** yn boblogaidd. Mae'n ddull effeithiol o ddysgu ac o gynnig hyfforddiant i bobl yn eu hamser eu hunain, ond o fewn amserlen a strwythur. Cynigir yr e-weithdy cyfieithu ar lefelau Cyflawn a Sylfaenol ar wahân. Yn yr e-weithdy cyfieithu bydd rhywun yn cyfieithu dau ddarn o'r un hyd a safon â darnau'r arholiad perthnasol, ac yn cael sylwadau ar eu cyfieithiadau gan diwtor sy'n gyfieithydd profiadol ac yn aelod o Gofrestr Marcwyr arholiadau'r Gymdeithas. Cynhaliwyd pedwar e-weithdy cyfieithu yn ystod y flwyddyn, dau ar y lefel Gyflawn a dau ar y lefel Sylfaenol. Cymerodd 21 unigolyn ran yn yr e-weithdy cyfieithu ar y lefel Gyflawn (16 i'r Gymraeg ac 6 i'r Saesneg), a 47 unigolyn (48 i'r Gymraeg ac 11 i'r Saesneg) ar y lefel Sylfaenol.

Gwnaed ambell newid yn nhrefniadau ac amserlen yr e-weithdy cyfieithu ar y lefel Gyflawn. Bellach bydd angen cyfieithu'r ail ddarn o fewn yr un terfyn amser penodedig â darn 'gwaith cartref' yr arholiadau, sef rhwng amser cinio ar y dydd Llun a 2pm ar y dydd Iau. Y newid arall yw y bydd y tiwtoriaid yn cyflwyno'u sylwadau ar ffurf adroddiad a fydd yn dilyn fformat digon tebyg i'r adroddiadau unigol y mae gan ymgeiswyr yr hawl iddynt yn y drefn arholi, datblygiad oedd yn fodd i'r marcwyr ymgyfarwyddo â'r agwedd hon o'r drefn arholi. Wrth sicrhau bod yr e-weithdy cyfieithu yn cynnwys rhai o'r un elfennau ag yn yr arholiadau ar y lefel hon, ni allwn ond gobeithio y bydd hyn o gymorth i unigolion baratoi'n well at yr arholiadau a llwyddo.

Nid oedd y rhaglen hybu datblygiad proffesiynol yn 2019-20 yn cynnwys yr un **gweithdy wyneb yn wyneb** am resymau ymarferol a dilys. Erys yr agwedd hon ar waith y Gymdeithas yn bwysig. Bwriedir trefnu gweithdai yn 2020-21 cyn gynted ag y bydd yr amgylchiadau'n caniatáu, gan barhau i ddilyn y patrwm a fabwysiadwyd ers sawl blwyddyn, sef eu cynnal mewn mwy nag un lleoliad er mwyn eu gwneud mor hygyrch â phosib i gyfieithwyr ym mhob rhan o Gymru.



Cynhaliwyd yr **Ymarfer CAP**, i'r Saesneg ac i'r Gymraeg, ar ddau achlysur a hynny yn y stiwdios sain lle cynhelir y Prawf CAP. Rhydd yr Ymarfer CAP gyfle i rywun gyfieithu dau ddarn o'r un hyd a safon ag a geir ym Mhrawf CAP y Gymdeithas, a chael sylwadau ar eu cyfieithiadau gan diwtor sy'n gyfieithydd ar y pryd profiadol ac yn un o aseswyr Prawf CAP y Gymdeithas. Cânt gyfle yn ogystal i ymgyswngwddo â lleoliad ac amgylchiadau'r Prawf CAP. Cymerodd 11 ran yn yr Ymarfer CAP, pob un i'r Saesneg ac un i'r Gymraeg.

Gwnaed un newid yn nhrefniadau'r Ymarfer CAP. Bellach sylwadau ysgrifenedig yn unig a gaiff y rhai sy'n gwneud yr Ymarfer CAP. Am resymau ymarferol, dilëwyd yr arfer o gynnal cyfarfod i drafod y cyfieithu.

Ymatebwyd i geisiadau am **hyfforddiant wedi'i deilwra** at anghenion penodol y sefydliadau a'r unigolion a elwodd ohono. Trefnwyd hyfforddiant wedi'i deilwra i gyfieithwyr yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Partneriaeth Cyd-Wasanaethau'r GIG; i staff Comisiynydd y Gymraeg; ac i Ioan Davies, fel rhan o Wobr Berwyn.

Lluniwyd dau **Ymarfer Cyfieithu ar y lefel Sylfaenol** i'w gosod ar wefan y Gymdeithas yn dilyn y ddau rownd o arholiadau uchod, un bob un i'r Gymraeg a'r Saesneg. Bellach mae 18 Ymarfer Cyfieithu ar y wefan, 12 i'r Gymraeg a 6 i'r Saesneg.

4.2 Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision

'Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision' yw teitl cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP) y Gymdeithas. Bwriad y ddogfen hon yw cynnig canllaw hwylus a fydd yn helpu ac yn annog aelodau'r Gymdeithas i ystyried pwysigrwydd DPP ac i lunio cynllun DPP personol. Bydd hefyd yn cynnig arweiniad i aelodau ynghylch pa weithgaredd DPP, a faint ohono, sydd fwyaf addas a pherthnasol i'w anghenion a'u dyheadau. Gall pob aelod gofnodi ei weithgarwch DPP yn ei Gofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas, cofnod y gall yr aelod ei hun a staff y Gymdeithas yn unig ei weld.

4.3 Darlith Goffa Hedley Gibbard

Karen Owen draddododd Ddarlith Goffa Hedley Gibbard 2019 yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst. Testun ei darlith oedd 'Rhosgadfan a'r jacan joe', a oedd yn cynnig cipolwg ar y ffordd yr oedd Kate Roberts yn benthyg ac yn llafareiddio wrth roi geiriau yng nghegau ei chymeriadau mwyaf cofiadwy.

4.4 Diwrnod i'r Aelodau 2019

Oherwydd y rhybudd i adael y swyddfa ym Mryn Menai, penderfynwyd canslo'r Diwrnod i'r Aelodau a oedd i'w gynnal ddiwedd Medi 2019.



5. Amcan strategol 3: Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol

Nod yr amcan strategol hwn yw cynnal a datblygu perthynas y Gymdeithas â gwahanol gyrff a sefydliadau, a meithrin partneriaethau allweddol. Bydd y rhain yn gyrff a sefydliadau y tu mewn a'r tu allan i'r byd cyfieithu, yng Nghymru a'r tu hwnt. Wrth wneud hyn, gallwn fod yn eiriol dros y Gymdeithas a'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg mewn mannau dylanwadol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth cyrff a sefydliadau o werth a mantais defnyddio'r Gymraeg.

5.1 Cyrff a sefydliadau yn y byd cyfieithu

Cafodd y Prif Weithredwr gyfarfodydd â phenaethiaid cwmnïau cyfieithu ac unedau cyfieithu mewn sefydliadau cyhoeddus. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i gyfnewid gwybodaeth am y naill a'r llall, ac i drafod ac egluro gwaith a gwasanaethau'r Gymdeithas a manteision hynny i'r cwmni/sefydliad ac i'w gyfieithwyr. Ar eu cais, rhoddwyd cyngor a gwybodaeth benodol i rai sefydliadau.

O ganlyniad i un o'r cyfarfodydd hyn, ysgrifennwyd at swyddogion yng Nghyngor Sir Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot yn mynegi pryder am y lleihad garw yn nifer y cyfieithwyr a gyflogid yn yr Uned Gyfieithu sy'n cael ei rhannu gan y ddau awdurdod, a'r ffaith nad oedd neb wedi eu penodi i'r swyddi, gan gynnwys swydd y pennaeth. Cafwyd ymatebion gan y ddau awdurdod yn nodi sut yr oeddynt yn bwriadu mynd ati i ddarparu a rheoli'r gwasanaeth. Esgorodd yr ohebiaeth ar gwestiwn ynghylch hyn gan Dai Lloyd AS i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol yn y Senedd.

Cynhaliwyd cyfarfod o benaethiaid unedau cyfieithu prifysgolion Cymru gyda'r nod o rannu gwybodaeth am ddulliau'r unedau o weithio. Roedd cynrychiolwyr o bum prifysgol yno (salwch a'r tywydd barodd i'r tri arall fethu â dod). Cytunai pob un i'r cyfarfod fod o fudd a gwerth mawr iddynt. Roedd yn gyfle iddynt gyfarfod â'i gilydd (y rhan fwyaf am y tro cyntaf erioed) ac roedd creu cysylltiadau yn bwysig i bob un ohonynt.

Parhaodd y Gymdeithas i gynnal ei pherthynas a'i chysylltiadau â chymdeithasau a chyrrff cyfieithu, yn eu plith Institute of Translators and Interpreters (ITI) – a bu'r Prif Weithredwr yng nghynhadledd ITI yn Sheffield; grŵp ITI Cymru/Wales; Chartered Institute of Linguists; a'r National Register of Public Service Interpreters. Mae'r Gymdeithas yn aelod o Professional Interpreters for Justice (PI4J), grŵp ymbarél a chanddo'r nod o gynrychioli buddiannau cyfieithwyr ar y pryd yn y sector cyhoeddus, yn arbennig y sector cyfiawnder. Caiff y Gymdeithas ei chynrychioli ar y Pwyllgor Llywio gan y Prif Weithredwr.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o FIT (Fédération Internationale des Traducteurs / International Federation of Translators), sef y gymdeithas ryngwladol sy'n cynrychioli buddiannau cymdeithasau cyfieithu proffesiynol.



5.2 Sefydliadau Addysg Uwch

Mae'r Gymdeithas yn aelod o Gonsortiw m Astudiaethau Cyfieithu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chaiff ei chynrychioli gan y Prif Weithredwr. Bwriad y Consortiw m yw cadw trosolwg strategol ar y ddarpariaeth academaidd a gynigir gan gynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth a'r Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae'r Consortiw m yn cynnig arweiniad a chynghor er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth academaidd yn adlewyrchu anghenion hyfforddi'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu, yn ogystal â'r safon a'r rhychwant sgiliau angenrheidiol sydd yn ddisgwyliedig gan gyfieithydd proffesiynol ar ddechrau ei yrfa.

Yng nghynhadledd cynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth, 'Cyfieithu: Rhwystrau a Rhyddid', roedd y Prif Weithredwr yn aelod o'r Panel Holi, a chyflwynodd y Gymdeithas sesiwn dan ofal Mary Jones, 'Osgoi'r maglau'. Yna ysgrifennodd hi bapur byr o sylwadau a gyhoeddwyd yn y Bwletin Newyddion a'i rannu gyda myfyrwyr y cynllun.

Cyfrannodd y Gymdeithas dros 40 o ddarnau i'w gosod ar y Llwyfan CAP, gwefan newydd a grewyd gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Roedd y rhain yn ddarnau a ddefnyddiwyd mewn Profion CAP yn y gorffennol ac a luniwyd yn benodol at ddibenion hyfforddiant. Ymysg y clipiau y gellir eu gwyllo am ddim mae Prawf CAP mis Mawrth 2012. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol bu'r Gymdeithas yn rhan o lansiad swyddogol y Llwyfan CAP newydd hwn.

Am yr ail flwyddyn cynigiodd y Gymdeithas wobrau i fyfyrwyr mwyaf addawol y flwyddyn ar y ddau gwrs. Yr enillwyr oedd Meleri Jones, cyfieithydd yn Bla Translations, Llangefni (Prifysgol Aberystwyth) a James Eul, cyfieithydd yng Nghyngor Caerdydd (PCYDDS). Mae'r gwobrau hyn ymhlith y gweithgareddau a gaiff eu hariannu gan y **Gronfa Sbarduno** a sefydlwyd yn 2017 ac y daw ei chyllid o'r arian wrth gefn a rhoddion.

5.3 Cyrff a sefydliadau yng Nghymru

Mae'r Gymdeithas yn aelod o **Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg**, a gaiff ei gydlynw a'i weinyddu gan Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Caiff y Gymdeithas ei chynrychioli gan y Prif Weithredwr. Yng nghyfarfod mis Mawrth 2020 cafwyd cyflwyniad gan Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, ac roedd yn galonogol ei chlywed hi'n cyfeirio at bwysigrwydd cyfieithu ar y pryd.

Cafwyd cyfarfod ag Aled Roberts, **Comisiynydd y Gymraeg**, yn fuan wedi iddo ddechrau yn ei swydd. Bydd y Gymdeithas yn parhau i weithio'n agos gyda swyddfa'r Comisiynydd ar faterion yn ymwneud â chyfieithu.

Parhaodd y Gymdeithas yn un o bartneriaid yr **Her Gyfieithu i'r Gymraeg**, cystadleuaeth a drefnir gan Gyfnwidfa Lân Cymru mewn cydweithrediad â Wales PEN Cymru. Y Gymdeithas, unwaith yn rhagor, a noddodd Ffon yr Her Gyfieithu o waith Elis Gwyn, Llanystumdwy. Enillydd Her Gyfieithu 2019 oedd Morgan Owen.

Ar y cyd â'r Urdd, cynhaliwyd y **gystadleuaeth cyfieithu i'r oedran 19-25 yn Eisteddfod yr Urdd 2019**. Yr enillydd oedd Lleucu Mair Bebb o Gaernarfon ac aelod o Aelwyd Pantycelyn. Ei gwobr oedd treulio diwrnod gyda Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad Cenedlaethol, sef y partner arall yn y gystadleuaeth.



Mae taflen **Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol**, 'Rheoli eich prosiect yn ddwyieithog', bellach yn rhoi sylw amlycach i'r Gymdeithas er mwyn annog ymgeiswyr llwyddiannus am grantiau i ddefnyddio aelod o'r Gymdeithas i ddarparu eu anghenion cyfieithu. Un o fuddion aelodaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw'r **cynnig cyfieithu i aelodau WCVA** gan aelodau'r Gymdeithas.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o: Dathlu'r Gymraeg, Dyfodol i'r Iaith, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a Mantell Gwynedd.

5.4 Ymatebion i ymgynghoriadau ac ati

Anfonwyd tystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru yn ymwneud â chyfieithu ar y pryd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Cyfeiriwyd at y cydweithio rhwng y Gymdeithas ag Uned Iaith Gymraeg GLITEM a Barnwyr cyswllt y Gymraeg, y trefniadau proffesiynol a dibynadwy y cytunwyd arnynt ar gyfer cyfieithu ar y pryd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, a'r ymddiriedaeth lwyr sydd gan y farnwriaeth yn y trefniadau hyn.

Bu cyfarfod yn y stondin Cyfiawnder yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn gyfle arall i dynnu sylw at y cydweithio hwn, a'r trefniadau cadarn a phroffesiynol ar gyfer cyfieithu ar y pryd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Ddiwedd mis Mawrth 2020 ysgrifennwyd at Ganghellor y Trysorlys yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ymestyn, ar fyrder, y Cynllun Diogelu Swyddi Coronafeirws i gynnwys a diogelu gweithwyr hunangyflogedig a llawrydd, gan nodi fod rhyw 43% o aelodau'r Gymdeithas yn hunangyflogedig.



6. Amcan strategol 4: Codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol

Nod yr amcan strategol hwn yw codi proffil y Gymdeithas, hybu ein gwerthoedd proffesiynol, hyrwyddo gwasanaethau proffesiynol ein haelodau, a marchnata gweithgareddau a gwasanaethau'r Gymdeithas.

Bwriad y gweithgareddau marchnata a chyfathrebu, wrth gefnogi a hyrwyddo nod ac amcanion y Gymdeithas, oedd creu perthynas gadarnhaol â'r gwahanol garfanau y mae angen i'r Gymdeithas ymgysylltu â hwy, sef ei haelodau, darpar aelodau, cyfieithwyr eraill, sefydliadau a chyrff, comisiynwyr cyfieithu, ac eraill y tu allan i'r byd cyfieithu (megis gwleidyddion a sefydliadau). Bydd y gweithgareddau hyn hefyd yn fodd o dynnu sylw at swyddogaeth y Gymdeithas fel y corff proffesiynol i gyfieithwyr Cymraeg/Saesneg, ac i sicrhau proffil uchel i bob agwedd ar waith y Gymdeithas.

Targedwyd y sefydliadau ac unigolion sydd ar restr ohebu gyffredinol y Gymdeithas gyda gwybodaeth am weithgareddau'r Gymdeithas yn ôl y galw.

Mae gwefan y Gymdeithas - <https://www.cyfieithwyr.cymru/cy> - yn ganolog i weithgarwch marchnata a chyfathrebu'r Gymdeithas. Dyma'r unig le yn y byd i chwilio am wybodaeth am y byd cyfieithu Cymraeg.

I'r rhai sy'n chwilio am gyfieithydd neu gyfieithydd ar y pryd, mae gwasanaeth ar y wefan sy'n hwylus ac yn hawdd ei ddefnyddio i ddod o hyd i gyfieithydd, a hynny'n rhad ac am ddim. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys Cofnod Aelodaeth pob aelod sydd wedi rhoi ei ganiatâd i'r wybodaeth amdano ymddangos ar y wefan. Rhan bwysig o'r Cofnod Aelodaeth yw'r Proffil, sy'n rhoi cyfle i bob aelod gyflwyno gwybodaeth amdano'i hun.

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau y mae eu hangen ar gyfieithwyr ac unigolion sydd â'u bryd ar fod yn aelodau o'r Gymdeithas, gan gynnwys gwybodaeth am weithdai, cyn-bapurau arholiad ac adroddiadau'r Prif Arholwr, yr Ymarferion, a phob math o adnoddau defnyddiol megis geiriaduron a rhestrau termau. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys tudalen Newyddion a thudalen Swyddi (ar gyfer swyddi cyfieithu yn unig).

Hefyd, er mwyn tynnu sylw at weithgareddau'r Gymdeithas, defnyddiwyd cyfrif 'Twitter' y Gymdeithas - @cyfieithwyr - a gosodwyd hysbysebion yn y wasg.



7. Llywodraethiant a rheolaeth

7.1 Rheoli'r Gymdeithas

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf. yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Fe'i corfforwyd yn 2003. Rhif cofrestredig y cwmni yw 4741023. Cyfeiriad y swyddfa gofrestrdedig ers 23 Medi 2019 yw Intec, Parc Menai, Bangor, LL57 4FG. Prif Weithredwr y Gymdeithas, Geraint Wyn Parry, yw Ysgrifennydd y Cwmni.

Rheolir y Gymdeithas gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a etholir o blith holl aelodau'r Gymdeithas. Ar 31 Mawrth 2020, yr aelodau oedd: David Bullock, Mari Lisa Davies, Bethan M. Evans, Fiona Gannon, Steffan Gealy, Hywel G. Hughes, Catherine Jones, Mary Jones, Hywel Pennar, Ifan Prys, Claire Richards, Huw Tegid Roberts (Cadeirydd).

Cyfarfu Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 11 Gorffennaf 2019 a 4 Rhagfyr 2019. Bu'n rhaid canslo'r cyfarfod a oedd i'w gynnal ar 26 Mawrth 2020 ar fyr rybudd oherwydd Covid-19, ond deliwyd â'r materion pwysicaf trwy ohebiaeth.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ar 4 Rhagfyr 2019 yng Nghaerdydd.

Mae gan y Gymdeithas dri Bwrdd/Pwyllgor arall, sef y Bwrdd Arholi Testunau (y mae iddo dri aelod craidd, sef y Prif Arholwr a'r ddau ddirprwy, ynghyd â marcwyr y rownd honno o arholiadau), y Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd (y mae iddo dri aelod craidd, sef y Prif Arholwr a'r dirprwy, ynghyd ag aseswyr y Prawf CAP hwnnw), a'r Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol.

Fiona Gannon yw Prif Arholwr y Gymdeithas ac mae ganddi gyfrifoldeb am yr Arholiadau Aelodaeth Testun a'r Prawf CAP.

7.2 Y sefyllfa ariannol

Cafwyd grant o £50,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at y swyddi a chostau swyddfa. Amod o'r grant oedd yr angen i gyflawni targedau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Roedd y llythyr yn cynnig y grant yn nodi mai ei ddiben 'yw'ch galluogi i barhau i gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol, gan ddatblygu'ch gweithgareddau [...] sy'n ymwneud yn benodol â'r drefn asesu, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol, a sicrhau safonau proffesiynol'. Nododd y llythyr hefyd fod gwaith y Gymdeithas yn 'cyfrannu at nifer o'r camau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050, gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn y gymuned'.

Y brif ffynhonnell arall o incwm i'r Gymdeithas oedd y taliadau aelodaeth, sef £58,381.

Roedd yr incwm a gafwyd yn fodd i'r Gymdeithas barhau i gyflogi dau aelod o staff, yn ogystal â chyflawni'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Dengys y cyfrifon fod gan y Gymdeithas gronfa o £167,855 ar ddiwedd y flwyddyn.

Paratowyd yr Adroddiad Ariannol (heb archwiliad) gan Owain Bebb a'i Gwmni, Caernarfon, yn unol â FRS 102, Rhan 1A.

